**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-895
Ein cyf/Our ref LG/00773/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

07 Ebrill 2020

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-895, Etifeddiaeth Rosa.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) sy'n edrych ar y gefnogaeth a gynigir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer perchnogion anifeiliaid anwes nad ydynt, am ryw reswm neu'i gilydd, yn gallu gofalu am eu hanifeiliaid. Mae'r mater o ran y costau a godir gan filfeddygon preifat yn benderfyniad busnes wrth gwrs, ond rydym yn annog Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) i weithio gyda'u haelodau i gynghori Llywodraeth Cymru ar yr hyn sy'n bosibl.

Byddwch yn gwerthfawrogi yn sgil Covid-19, rydym wedi gorfod rhoi llai o flaenoriaeth i rai o'n meysydd gwaith er mwyn sicrhau bod ein partneriaid cyflenwi yn gallu rhoi blaenoriaeth i weithdrefnau pan neu os bydd amgylchiadau yn newid ac adnoddau yn prinhau. Ein blaenoriaeth yw parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diogelu iechyd y cyhoedd, diogelu anifeiliaid rhag clefydau statudol a sicrhau nad yw lles anifeiliaid yn cael ei beryglu.

Byddwn yn trefnu cwrdd ag aelodau AWNW, gan gynnwys BVA, i drafod y materion hyn pan fydd y blaenoriaethau yn newid a byddwn yn eich diweddaru pan fo hynny'n bosibl.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.